| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | Gwasanaeth i'r Ysgol Gyfan (CA2) |
| Disgrifiad: | Pobl sy'n dylanwadu arnom |
| Blynyddoedd ysgol: | Ysgol gyfan |
| Testun Dylan Thomas | Dim un penodol |
| Offer angenrheidiol: | Delwedd o glawr Record y Beatles, Sgt Pepper.<br>Delwedd o Dylan Thomas<br>Trac Sgt Pepper i chwarae wrth i'r disgyblion ddod i mewn i'r neuadd.<br>Darnau mawr o bapur a phen marcio. |
| Trefn a awgrymir: | A oes unrhyw un yn gwybod beth yw'r cysylltiad rhwng Dylan Thomas a Record Sgt Pepper?<br>*Dewis John Lennon oedd cael llun o Dylan Thomas ar y clawr. Yn 'The Beatles Anthology', meddai Paul McCartney: "Rwy'n siŵr mai Dylan Thomas oedd y prif ddylanwad ar [Bob]Dylan a John [Lennon]. Dyna pam nad Bob Zimmerman yw Bob - Zimmerman oedd ei gyfenw go iawn. Roedden ni i gyd yn arfer hoffi Dylan Thomas. Dwi'n darllen ei waith yn aml. Dwi'n credu bod John wedi dechrau ysgrifennu o'i achos e."* (Dylanthomas.com)<br>Ydych chi'n adnabod unrhyw bobl enwog eraill ar y clawr? (http://en.wikipedia.org/wiki/List_of_images_on_the_cover_of_Sgt._Pepper's_Lonely_Hearts_Club_Band)<br>Pam rydych chi'n meddwl cafodd y bobl hyn eu dewis?<br>Beth yw ystyr ysbrydoliaeth? Beth/pwy sy'n eich ysbrydoli chi? (gofynnwch i ddisgyblion unigol) Pa nodweddion sydd eu hangen ar berson ysbrydoledig?<br>Ysgrifennwch y nodweddion hyn ar ddarnau o bapur a gofyn i blant ddod i'r blaen a'u dal i fyny i bawb eu gweld.<br>Oes modd eu rhoi yn eu trefn o'r nodweddion pwysicaf/mwyaf pwysig i'r lleiaf pwysig?<br>Pa rai o'r nodweddion hyn roedd John Lennon a Bob Dylan yn eu hoffi am Dylan Thomas, tybed? |
| Gweithgareddau estyn: | Edrychwch ar rai o'r enwogion eraill sydd ar y clawr a'r hyn wnaethon nhw yn ystod eu bywyd. |
| Cysylltiadau perthnasol: | Cysylltiad crefyddol: Mae Iesu a Muhammad yn ysbrydoli Cristnogion a Mwslimiaid yn y byd heddiw. |
| Gweddi: | O Dduw,<br>Diolch i Ti am y bobl yn ein bywydau sy'n ein hysbrydoli ni. Helpa ni i geisio ysbrydoli eraill drwy ddod o hyd i ffyrdd inni helpu pobl eraill a gwneud gwahaniaeth, pa mor fach bynnag, i fywyd rhywun arall.<br>Amen. |

** Mae'r gwasanaethau yma yn addas ar gyfer eu defnyddio mewn gwersi hefyd*